**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth Gorffennaf 18fed am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Philip Stevens & Lara Pritchard; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwr Dyfrig Berry.

Croesawodd clerc y dref bawb i'r cyfarfod mis Gorffennaf 2017. Gan nad oes cadeirydd wedi ei benodi cadarnhaodd y cynghorwyr eu bod yn hapus i Gyng Rob Parkes i gadeirio'r cyfarfod nes bod cadeirydd swyddogol wedi ei benodi.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 2il o Fai 2017.**

3. **Materion yn codi:** Dim

4. **Apwyntiad cadeirydd a dirprwy gadeirydd.** Cynigodd y Cyng Philip Stevens y Cyng Rob Parkes yn gadeirydd, cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Lara Pritchard. Derbyniodd y Cyng Rob Parkes y swydd.
   Cynigodd y Cyng Philip Stevens y Cyng Lara Pritchard fel dirprwy gadeirydd, cafodd hyn ei eilio gan y Cyng Rob Parkes. Derbyniodd y Cyng Lara Pritchard y swydd.

5. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 01/2017/0464
Studio 3, Lon Rhosmari, Dinbych
Ailosod ffenestri a drysau.

(2) 01/2017/0474
20 Clos Hilari, Dinbych
Codi ffenestr dormer yn y cefn a llawr caled ychwanegol i flaen.

5. **Materion Cynllunio eraill: Dim**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.40 o'r gloch.

Arwyddwyd:………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………